DAN DO MÔN

Cylchlythyr i fudiadau gwirfoddol Ynys Môn
Rhif Elusen 1088828 Rhif Cwmni 4197934 Rhifyn 64 Gorffennaf 2007

Traean o gynnydd yn y nawdd i'r sector gwirfoddol

Mae Cynghorau Cymru wedi rhoi £35 miliwn yn fwy o nawdd i'r sector gwirfoddol dros gyfnod o ddwy flynedd. Bu cynnydd o 28% yn yr arian a roddodd awdurdodau lleol Cymru i fudiadau gwirfoddol rhwng 2004 a'r llynedd.
Yn ôl Andrew Davies, Gweinidog y Cynulliad Cenedlaethol dros Gyfiawnder Cymdeithasol a darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, mae'r cynnydd yn cydnabod y rôl bwysig y mae'r sector gwirfoddol yn ei chwarae yng nghymunedau Cymru. Roedd Graham Benfield Prif Weithredwr CGGC yn croesawu'r hwb. Dywedodd "roedd llywodraeth leol yn ffynhonnell hollbwysig o nawdd i sawl grŵp cymunedol. Mae'n braf gweld bod cyllido yng Nghymru wedi cyrraedd yr un lefel a'r Alban a Lloegr erbyn hyn".

Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales

Mae'r ymchwil a gwblhawyd ar ran y bartneriaeth rhwng Llywodraeth y Cynulliad, Uned Data Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar gael ar wefan yr Uned Data ar:www.lgdu-wales.gov.uk

Cronfa Allweddol Medrwn Môn

Llwyddodd grŵp i sicrhau cyllid i ddathlu Thomas Telford 250 - ailgreir taith y Goets Fawr o Cob Stanley i'r 'Coach Inn' ger y Gofeb yng Nghaergybi ar 30 Gorffennaf 2007. Ymunwch yn y dathlu.

Ganwyd Thomas Telford (1757-1834) yn Westerkirk yn yr Alban. Roedd yn saer maen, pensaer a pheirianydd sifil nodedig, yn adeiladwr ffyrdd, pontydd a chamlesi .

Nid yw'n anorfod mai barn Medrwn Môn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn. Cadw'n yr hawl i olygu cyn cyhoeddi. Dyluniwyd a dosbarthwyd y cylchlythyr hwn gan Medrwn Môn.

GWYBODAETH

Sefydliad Morgan

Cefnogir elusennau ar draws Gogledd Cymru - yn ddiweddar ehangwyd ei rhaglen ddyrannu grantiau i £1miliwn y flwyddyn. Mae'r Sefydliad yn arbenigo mewn cefnogi mudiadau sy'n helpu plant a theuluoedd, ac fe ystyrir unrhyw agwedd o waith sydd ag effaith gadarnhaol ar eu lles, neu sy'n ymestyn cyfleodd o ddewisiadau bywyd i bobl ifanc yn y rhanbarth.

Meysydd cefnogol hyd yn hyn yn cynnwys anabledd dysgu a chorfforol, iechyd meddwl a chorfforol, yn ogystal ag amddifadedd a her gymdeithasol. Ystyrir helpu elusennau sy'n cyfarfod ag anghenion eraill yn amodol eu bod yn cyfarfod prif amcan y Sefydliad o 'wneud gwahaniaeth'

Mwy o wybodaeth o www.morganfoundation.co.uk neu cysylltwch â Jane Harris (Gweinyddwr) ar 01829 782800

Sefydliad y Co-op

Mae Sefydliad y Co-op yn awyddus i gefnogi gweithgarwch yn y sector gymunedol a gwirfoddol drwy roi grantiau i grwpiau a mudiadau lleol ar hyd ac ar led yr ardal lle mae'n masnachu.

Mae â diddordeb penodol mewn grwpiau sy'n cael eu harwain a'u rhedeg yn lleol sy'n dangos tystiolaeth o ddilyn gwerthoedd ac egwyddorion cydweithredol: hunangymorth, cydraddoldeb, democratiaeth, pryder am y gymuned.

Fe all y gymuned fod yn gymuned ddaearyddol fel pentref, tref neu ystâd o dai, neu cymuned o bobl sydd wedi dod at ei gilydd i fynd ar afael â phwnc penodol.

Grantiau ar gael rhwng £500 a £30,000 Dyddiad cau nesaf yw 1af Medi 2007

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ar 01706 202032 neu ymwelwch â: www.united.coop/Foundation.asp

---

Sefydliad Hedley

Nod grantiau'r Ymddiriedolwyr yw helpu ac annog datblygiad a newid. Ei brif amcan yw pobl ifanc, ond mae gan yr Ymddiriedolaeth hefyd ail amcan o bobl anabl a salwch terfynol. Bydd y rhan fwyaf o grantiau yn rhai cyfalaf neu untro, ond cytunir weithiau i gyfrannu at ariannu cyflwyno prosiectau newydd ac arloesol gyda chyfres o hyd at 3 grant blynyddol.
Grantiau arferol hyd at £5,000 ac maent i elusennau lle gallant gael effaith.

I gael mwy o wybodaeth ymwelwch â: www.hedleyfoundation.org.uk

NEWYDDION

Gwirfoddolwyr eu hangen i helpu mudiad y sgowtiaid

A allech helpu i ddatblygiad pobl ifanc yng Nghymru?

Mae Mudiad y Sgowtiaid yn agored i holl bobl ifanc (oedran 6—25 oed) ac fe gynigir amrywiaeth eang o gyfleoedd ysbrydoledig, yn amrywio o TG i chwaraeon eithafol. Er hynny ffaith lai amlwg yw bod **Mudiad y Sgowtiaid ar hyn o bryd yn darparu cyfleoedd cyffrous i dros 28 miliwn o bobl ifanc trwy'r byd, a 400,000 o bobl ifanc yn y DU yn unig.**

Mae Cyngor Sgowtiaid Cymru ar hyn y bryd yn gobeithio denu nifer o oedolion i wirfoddoli mewn amrywiaeth eang o swyddi gwirfoddol (yn cynnwys arweinyddion i weithio'n uniongyrchol a phobl ifanc, pobl i help efo cyfrifon ayb) sy'n asgwrn cefn Mudiad y Sgowtiaid.

Os oes gennych y gallu i arwain trwy esiampl, ac yn fodlon neilltuo ychydig o amser sbâr i wirfoddoli yn y mudiad cyffrous hwn, yna chi ydi'r person mae'r Cyngor Sgowtiaid Cymru yn chwilio amdano!

Yn ogystal â helpu pobl ifanc i gyflawni eu llawn potensial, mae yna amrywiaeth o fanteision i'w gael wrth wirfoddoli, yn cynnwys gwneud ffrindiau newydd, darganfod sgiliau newydd, manteisio o raglen hyfforddi hyblyg 'wrth y gwaith', ond yn bwysicach antur a hwyl go iawn.

Bydd angen i bob gwirfoddolwr gydymffurfio a deddfwriaeth a rheoliadau cyn gweithio a phobl ifanc

Os yn angerddol ynglyn â chyflwyno pobl ifanc i antur y Sgowtiaid, cysylltwch ar 01446 795277 neu e-bostiwch Shirley.myall@scoutswales.org.uk

---

Bwrdd yr Iaith Gymraeg - Grantiau i hyrwyddo'r Gymraeg

Cynigir cymorth ariannol i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae'r rhaglen yma yn cyllido prosiectau sydd yn cyflawni'r amcanion canlynol:

- Cynyddu'r nifer o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg
- Cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith
- Newid arferiad o ddefnydd iaith ac annog pobl i fanteisio ar gyfleon
- Cryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol

Gall grantiau gyfarfod â hyd at 70% o gost y prosiect. Gwahoddir ceisiadau o'r sector breifat, busnesau, grwpiau gwirfoddol.

Ceisiadau i law erbyn 5ed o Fedi 2007.

Ffôn: 02920878000 Safle we: www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/

NEWYDDION

Cynllun grantiau 'Gadewch i ni gerdded Cymru'

Cynllun i Gymru gyfan yw 'Gadewch i ni Gerdded Cymru' gyda'r nod o gynyddu nifer y bobl sy'n cerdded fel gweithgarwch rheolaidd er budd eu hiechyd.

Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar dargedu pobl sy'n segur a'r nod yw ehangu rhaglenni teithiau cerdded traddodiadol er budd iechyd - bydd y grant yn cefnogi'r rhain ond hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu prosiectau sy'n cynnig mwy o gyfleoedd.

Grantiau hyd at £10,000 y flwyddyn ar gael. Mae'n bosib gwneud cais am grant mwy gwerth £30,000 os yw'r cais ar gyfer prosiect sawl-elfen.

Dyddiad cau ar gyfer yr ail rownd yw dechrau Tachwedd 2007, gyda'r grantiau'n cael eu rhannu Ionawr 2008.

I gael mwy o wybodaeth holwch yr Uwch Swyddog Cymdeithas Fyw: Gogledd 08450 450908 neu Shana Thomas Uwch Swyddog Cerdded ar 08450 450906 neu shana.thomas@scw.co.uk

---

Newyddion o'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (DELLS)

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Mae'r Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (DELLS) bellach wedi dod yn Adran Addysg, Diwylliant a'r Iaith Gymraeg (DECWL)

Mae DECWL yn anelu at wella gwasanaethau plant, addysg a darpariaeth hyfforddiant i sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer dysgwyr, busnes a chyflogwyr fel y nodir yn ei ddogfen strategol *Y Wlad sy'n Dysgu.*

Mae'n cynorthwyo i rymuso plant, pobl ifanc ac oedolion drwy addysg a hyfforddiant i fwynhau ansawdd bywyd gwell. Mae DECWL hefyd yn anelu at gynorthwyo i gryfhau hunaniaeth ddiwylliannol Cymru, creu Cymru ddwyieithog a hyrwyddo pwysigrwydd chwaraeon a gweithgarwch corfforol i iechyd a lles.

NEWYDDION

Cefnogaeth Canser Macmillan – grwpiau hunangymorth

Mae cyllid ar gael ar gyfer grwpiau hunangymorth a chefnogaeth canser ledled y DU. Mae arian ar gael naill ai i helpu i sefydlu grŵp newydd neu ganiatáu i grŵp cyfredol barhau. Mae hyd at

- £500 ar gael i'w helpu gyda'u datblygiad cychwynnol a hyrwyddo eu gwasanaeth
- £3,000 ar gael i barhau iddynt ddatblygu

Gellir defnyddio'r arian at ddigwyddiadau, gweithgareddau hyrwyddo a phrynu deunyddiau ar gyfer y grŵp.

Dyddiad cau nesaf yw 2il Tachwedd 2007

Mwy o wybodaeth o: www.macmillan.org.uk

Apêl Cancr Gwynn Jones

(Rhif Elusen Cofrestredig 1112526)

Mae Linda Jones, er cof am ei phriod Gwynn Jones, cyn diwtor yng Ngholeg Menai, wedi lansio Apêl Cancr i brynnu Sganiwr i Ogledd Cymru fydd o fantais i gleifion o Ynys Môn.

Gobeithir bydd pryniant y sganiwr yn gymorth i driniaeth cancr i gleifion yng Ngogledd Cymru drwy adnabyddiaeth buan a thriniaeth fanwl.

Os gallwch helpu mewn unrhyw ffordd gyda nawdd neu weithgareddau cysylltwch â Linda Jones ar 01248 01248 450748 neu e-bost: ljones1810@aol.com

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2008

Bydd y mynegai amddifadedd yn cael ei ddiweddaru am yr eildro yn 2008. Gofynnwyd i grwpiau gwirfoddol ei ddefnyddio fel cyfrwng i dargedu cyllid y Llywodraeth ac fel cyfiawnhad dros geisiadau grantiau ledled Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori ynghylch pa ddangosyddion y dylid eu defnyddio'r tro hwn, wrth i ddata newydd ddod ar gael, neu wrth i ddata gael ei ystyried i fod yn ddigon cadarn i'w gynnwys. ***Un newid mawr yw'r bwriad i gynnwys dangosyddion ar gyfer Diogelwch Cymunedol.***

Bu Medrwn Môn bresenoli mewn digwyddiad ymgynghori Gogledd Cymru diweddar yng Nghonwy - ein barn ni yw bod y ddogfen yn ddefnyddiol ar raddfa genedlaethol ac ar lefel Sirol, ond yn gyfyngedig iawn i elwa o gael gwybodaeth ystyrlon at ddibenion mwy lleol wrth gyflwyno ceisiadau am grantiau.

Copi o'r ddogfen ymgynghori ar gael o swyddfeydd Medrwn Môn, Llangefni neu o Uned Cyhoeddiadau Ystadegol. Llywodraeth Cynulliad Cymru: Www.wales.gov.uk/statistics

Anfonwch eich sylwadau at Chris Williams i'r:

Uned Cyhoeddiadau Ystadegol
Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD CF10 3NQ

e-bost:
stats.inclusion@wales.gsi.gov.uk
neu ffoniwch 029 2082 5061

Dyddiad cau ymatebion 7 Medi 2007.

NEWYDDION

Y Loteri Fawr yn lansio 'Ffordd Newydd o Fyw' i deuluoedd Cymru

Mae'r Gronfa Loteri Fawr wedi lansio cynllun ariannu newydd a fydd yn gwario £7 miliwn ar fynd i'r afael a phroblem gynyddol gordewdra ymhlith plant yng Nghymru. Y cynllun yw'r olaf o'r ddau linyn i'w lansio dan raglen newydd £20 miliwn Teuluoedd iach y Gronfa Loteri Fawr. Bydd '*Ffordd o Fyw*' yn gwario £7 miliwn ar ddatblygu ffyrdd newydd o hyrwyddo bwyta'n iach, gweithgaredd a chwarae ymhlith plant dan 12, drwy brosiectau sy'n cynnwys y teulu cyfan.

Mar grantiau rhwng £250,000 a £500,000 ar gael i ddarparu cefnogaeth i bobl yn eu hardaloedd targed. Wrth dynnu sylw at bwysigrwydd y cynllun, dywedodd Graham Benfield, aelod o Bwyllgor Cronfa Loteri Fawr Cymru a Chadeirydd y Pwyllgor Teuluoedd Iach 'Bydd *Ffordd o Fyw* yn canfod bylchau yn y ddarpariaeth ac yn datblygu cynlluniau newydd a fydd yn mynd i'r afael a'r broblem gynyddol o ordewdra ymhlith plant yng Nghymru.

I gael mwy o wybodaeth am y rhaglen Teuluoedd Iach - Ffordd o Fyw ymwelwch â: www.biglotteryfund.org.uk

---

Gwobrau Cymorth Chwaraeon UnLtd

Lansiwyd y rhaglen grantiau gwerth £1 miliwn yma trwy'r DU a anelir at annog pobl ifanc i ddefnyddio chwaraeon i fynd i'r afael â materion cymdeithasol yn eu cymunedau.

Anelir y rhaglen grantiau a ddarperir i roi cyfle i bobl ifanc rhwng 11 a 21mlwydd oed uno pobl a chymunedau sy'n wynebu gwrthdaro neu sy'n rhanedig oherwydd cefndir neu ddiwylliant, gan ddefnyddio chwaraeon fel cyfrwng hwylus.

Bydd grantiau rhwng £250 a £5,000 a chefnogaeth ymarferol i bobl ifanc ysbrydoledig sydd â syniadau arloesol ar gael sy'n ymwneud â chwaraeon ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol yn eu cymunedau.

I gael mwy o wybodaeth ymwelwch â: www.unltd.org.uk/sportreliefawards

Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm

Grantiau i fudiadau gwirfoddol yng Nghymru yn cefnogi chwaraeon, y celfyddydau, y gymuned a'r amgylchedd yn cynnwys costau prosiect, offer, teithio, taliadau dysgu a chostau hyfforddiant. Dylai prosiectau ddarparu'r lles mwyaf i'r gymuned, ynghyd â gwerth am arian.

Grantiau yn amrywio o uchafswm o £2,000 i fudiadau lleol i uchafswm o £20,000 i fudiadau cenedlaethol.

Gall grwpiau gwirfoddol cyfansoddiadol, mudiadau elusennol a grwpiau gwirfoddol yn cyd-weithio ag awdurdodau lleol ymgeisio.

Dyddiad cau nesaf tuag at ddiwedd Hydref 2007.

Ffôn: 029 2049 4963
Gwefan: ww.millenniumstadium.com

HYFFORDDIANT

Hyfforddiant Empower

Archebwch unrhyw hyfforddiant gydag Empower cyn 31Awst, a mwynhewch ostyngiad hael o **20%** ar unrhyw gwrs yn eu llyfryn 2007. Dyfynnwch '**haf**' a dywedwch lle gwelsoch chi'r hysbyseb hwn i gael y gostyngiad o 20%. Er mwyn cael llyfryn hyfforddiant am ddim, ffoniwch **01874 730 067**.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch:
Ffôn: 01874 730 067 E-bost: info@empowersvs.co.uk
Safle we: www.empowersvs.co.uk

Cyrsiau Hyfforddiant CGGC

Ennill arian (Earning)

13 Medi 2007, Ruthun **Cost**: £10 (cynnwys TAW)

Mae mudiadau gwirfoddol yn dod yn gynyddol ymwybodol y dylent fod yn ystyried datblygu sylfaen incwm cynaliadwy a lleihau eu dibyniaeth ar grantiau. Bydd y cwrs hwn o fudd i bobl sy'n gobeithio cynhyrchu incwm ychwanegol trwy fasnachu nwyddau neu wasanaethau a gwaith contract.

Bwriad y cwrs hwn yw rhoi darlun cyffredinol o'r llwybrau sydd ynghlwm wrth ddatblygu syniad ar gyfer cynhyrchu incwm, ac mae'n ystyried y sgiliau sydd eu hangen i fabwysiadu diwylliant entrepreneuraidd. Anelir y cwrs at bobl sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol a chodi arian ac mae'n addas ar gyfer codwyr arian profiadol sydd eisiau gweld sut y gall ennill arian helpu mudiadau i ddod yn ariannol gynaliadwy.

Cyllid benthyciadau a datblygiad sy'n seiliedig ar asedau

20 Medi 2007, Y Rhyl **Costau***:* £10 (cynnwys TAW)

Mae argaeledd cyllid benthyciadau, a llwybrau atynt, i'r sector gwirfoddol wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae wedi helpu mudiadau niferus i ddatblygu sylfaen asedau, boed hynny'n adeilad neu'n dir. Bydd y cwrs hwn yn helpu mudiadau i gael gwell dealltwriaeth o gyllid benthyciadau a datblygiad sy'n seiliedig ar asedau, yn ogystal â manteision posibl i'w mudiad.

Anelir y cwrs at bobl sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol a chodi arian ac mae'n addas ar gyfer codwyr arian profiadol sydd eisiau gweld sut y gall cyllid benthyciadau a datblygiad sy'n seiliedig ar asedau helpu eu mudiad i ddod yn ariannol gynaliadwy.

Am ragor o wybodaeth a ffurflen gais ffoniwch Lein gymorth WCVA ar 0800 2888 329, e-bost help@wcva.org.uk

NEWYDDION

Gwobrau Elusen y Guardian 2007

Mae'r Guardian yn cyhoeddi lansiad Gwobrau Elusen y Guardian 2007. Mae'r gwobrau yn cynnig cyfle gwerthfawr i gydnabod a dathlu pwysigrwydd y sector gwirfoddol, yn gwobrwyo elusennau bychain am eu cyfraniad er lles y gymuned. Eleni maent yn anelu i adnabod y mudiadau hynny sydd yn gwneud cyfraniadau arbennig i'r gymdeithas gyfan.

Mae elusennau gydag incwm o lai na £1miliwn yn gymwys i ymgeisio a'r dyddiad cau yw dydd Gwener, 7 Medi 2007. Cyhoeddir enwau'r enillwyr mewn seremoni wobrwyo yn Llundain ym mis Rhagfyr. Bydd pob un o'r pum enillydd yn derbyn siec o £6,000, a chyfrifiadur newydd a roddwyd drwy garedigrwydd SmartChange.

Cysylltwch ar 01727 898146 neu e-bostio: charityawardsapplication@guardian.co.uk am ffurflen gais neu i lenwi'r ffurflen gais ar lein ewch i: SocietyGuardian.co.uk/charityawards

---

Y GYMDEITHAS STRÔC

Un o sgil effeithiau strôc yn aml yw problemau siarad, deall, ysgrifennu a darllen sy'n effeithio ar allu'r unigolyn i gyfathrebu gyda phobl eraill. Mae grŵp newydd yn cychwyn yn y misoedd nesaf yn Ynys Môn dan ofal Swyddog Cefnogaeth Cyfathrebu y Gymdeithas Strôc. Fe fydd y grwp yn cyfarfod yn wythnosol ac fe fydd pob math o weithgareddau'n cael eu darparu mewn awyrgylch anffurfiol, hwyliog gan ganolbwyntio ar sgwrsio'n bennaf. Er mwyn i'r grwp fod mor effeithiol â phosibl mae angen gwirfoddolwyr sy'n barod i roi dwy awr pob wythnos. Does dim angen sgiliau neu wybodaeth arbennig gan y bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu, dim ond yr awydd i helpu rhywun adennill ei hyder ac i wella'i sgiliau cyfathrebu. Os hoffech wybod mwy cysylltwch â Gwenan Job, Y Gymdeithas Strôc, Bodfan, Ysbyty Eryri, Caernarfon LL55 2YF. Ffôn 01286 669325 neu e-bost gjob@stroke.org.uk

EIN CYFEIRIAD YW:
Neuadd y Sir, Ffordd Glanhwfa
LLANGEFNI
Ynys Môn LL77 7EN
Ffôn: 01248 724944
Ffacs: 01248 750149
E-bost: post@medrwnmon.org
Safle We: www.medrwnmon.org